1907-2007
Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Datganiad Newyddion

Y rhan fwyaf o athrawon newydd yn fodlon â'u swyddi

11 Medi 2007

Mae'r rhan fwyaf o athrawon sydd newydd gymhwyso yng Nghymru yn fodlon â'u swydd, diolch i gyfnodau sefydlu a chefnogaeth ddatblygiadol well, meddai adroddiad newydd a gyhoeddwyd gan Estyn heddiw.

Canfu arolygwyr fod rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n cefnogi athrawon yn ystod cyfnod cychwynnol eu gyrfa, wedi cael effaith gadarnhaol ar foddhad y rhan fwyaf o athrawon â'u swyddi. Mae'r rhaglen yn rhoi iddynt yr amser a'r gefnogaeth barhaus sydd eu hangen arnynt i ddatblygu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth. Mae llawer o athrawon sydd newydd gymhwyso yn cael yr ymdeimlad mwyaf o foddhad â'u swydd wrth ddatblygu cysondeb yn eu haddysgu ac yna gweld eu disgyblion yn gwneud cynnydd da.

"Ers i'r rhaglen gychwyn yn 2003, mae nifer yr athrawon sydd wedi cyflawni eu safon sefydlu wedi cynyddu. Mae dros ddwy ran o dair o'r holl athrawon sydd newydd gymhwyso o dan 29 oed, gan ddod â syniadau a brwdfrydedd newydd i'r proffesiwn addysgu ochr yn ochr â'r rheiny sydd â nifer o flynyddoedd o brofiad. Mae angen rhaglen dda o ddatblygiad proffesiynol parhaus i helpu i'r athrawon sydd newydd gymhwyso sefydlu eu hunain yn dda yn y proffesiwn fel eu bod yn cael eu hannog a'u

symbylu i ystyried bod addysgu'n yrfa hirdymor gyffrous a buddiol," meddai Susan Lewis, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Mae'r rhaglen ar ei mwyaf llwyddiannus lle bydd athrawon sydd wedi cyrraedd yr un man yn eu gyrfa yn gallu cydweithio ar faterion cyffredin. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i athrawon yn eu hail a'u trydedd flwyddyn gyfarfod fel grwpiau cymheiriaid. Mae Estyn yn argymell bod awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â hyn fel y gall athrawon sydd yn y cam hwn gyfarfod â'i gilydd a datblygu eu rhwydweithio proffesiynol.

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon ddealltwriaeth glir o sut gallant ddatblygu yn eu gyrfaoedd. Mae hyn yn deillio yn bennaf o'r datblygiad proffesiynol y maent yn ei gael yn eu hail a'u trydedd flwyddyn o addysgu. O ganlyniad, nod llawer ohonynt yw ymgymryd â swyddi gyda chyfrifoldeb ac mae rhai'n dymuno dod yn benaethiaid. Mae'n well gan rai athrawon ddatblygu drwy ddod yn arbenigwyr pwnc, ond yn aml, nid yw mentoriaid yn archwilio'r dewis hwn gydag athrawon yn ddigonol. Mae Estyn yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn helpu i wella dealltwriaeth athrawon ymhellach o ran y llwybrau sydd ar agor iddynt i ddatblygu yn eu gyrfa

Nid yw nifer fechan o athrawon sydd ar gytundebau dros dro yn cael eu helpu gan y cyfnod sefydlu a'r rhaglen datblygiad proffesiynol cynnar i gael boddhad o'u swydd. Y rheswm dros hyn yw bod yr arweiniad a'r cymorth sy'n agored iddynt yn aml yn gyfyngedig ac yn anghyson. Mae Estyn yn argymell bod penaethiaid yn sicrhau bod athrawon nad ydynt yn dal swyddi parhaol yn cael eu hawl llawn i gyfnod sefydlu a datblygiad proffesiynol cynnar.

Mae athrawon mewn ysgolion bach sydd yn eu hail neu eu trydedd flwyddyn o dan anfantais oherwydd bod rhaid i ysgolion dalu ymlaen llaw am y datblygiad proffesiynol. Nid oes gan ysgolion bach yr arian i wneud hyn bob amser. Mae Estyn yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sefydlu ariannu mwy hyblyg ar gyfer y rhaglen i ysgolion bach.

Mae arolygwyr hefyd yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cofnodi ac yn monitro'r rhesymau pam mae athrawon sydd newydd gymhwyso yn cwblhau eu hyfforddiant ond nad ydynt yn ymgymryd â swyddi addysgu yng Nghymru, neu'n ymadael â'r proffesiwn. Gall y data hwn yna gael ei ddefnyddio i wella cyfraddau cadw.

DIWEDD

Nodiadau i Olygyddion:

Comisiynwyd adroddiad Estyn "Effaith y rhaglen sefydlu a datblygiad proffesiynol cynnar ar foddhad athrawon â'u swyddi a'u cadw ynddynt Hydref 2006-Gwanwyn 2007" gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac fe'i cyhoeddir yn www.estyn.gov.uk .

- Ymgymerwyd â'r gwaith hwn fel rhan o'r cylch gwaith a gafodd Estyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym Mawrth 2006.
- Bu arolygwyr yn cyfweld athrawon yn eu hail flwyddyn o ddatblygiad proffesiynol cynnar (eu trydedd flwyddyn o addysgu) mewn sampl o ysgolion ledled Cymru yn ystod hydref 2006 a dechrau tymor y gwanwyn 2007.
- Mae'r adroddiad yn adeiladu ar waith blaenorol gan Estyn:
  - 'Datblygiad Proffesiynol Cynnar – Athrawon sydd Newydd Gymhwyso' (2002);
  - 'Gweithredu'r flwyddyn sefydlu ar gyfer athrawon sydd newydd gymhwyso yng Nghymru' (2005); ac
  - 'Arolwg o sefydlu a datblygiad proffesiynol cynnar athrawon' (2006).

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
Gina Carrington
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464